***Status:*** *This is the original version (as it was originally made). This item of legislation is currently only available in its original format.*

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2005 No. 3125

# POWERS OF ATTORNEY, ENGLAND AND WALES MENTAL HEALTH, ENGLAND AND WALES

## The Enduring Powers of Attorney (Welsh Language Prescribed Form) Regulations 2005

| | |
|---|---|
| *Made - - - -* | *8th November 2005* |
| *Laid before Parliament* | *10th November 2005* |
| *Coming into force - -* | *5th December 2005* |

The Lord Chancellor makes the following Regulations in exercise of the powers conferred by section 2(2) of the Enduring Powers of Attorney Act 1985(**1**) as extended by section 26(3) of the Welsh Language Act 1993(**2**):

### Citation and commencement

**1.** These Regulations may be cited as the Enduring Powers of Attorney (Welsh Language Prescribed Form) Regulations 2005 and shall come into force on 5th December 2005.

### Welsh language prescribed form

**2.** The form of words in the Schedule to these Regulations may be used instead of that set out in the Schedule to the Enduring Powers of Attorney (Prescribed Form) Regulations 1990(**3**).

### Revocation

**3.** The Enduring Powers of Attorney (Welsh Language Prescribed Form) Regulations 2000(**4**) are revoked except that a power executed in the form prescribed in the Schedule to those Regulations and executed by the donor before 1st April 2007 shall be capable (whether or not seals are affixed to it) of being a valid enduring power of attorney.

(**1**) 1985 c. 29.
(**2**) 1993 c. 38.
(**3**) S.I. 1990/1376 as amended by S.I. 2005/3116.
(**4**) S.I. 2000/289.

Signed by authority of the Lord Chancellor

*Cathy Ashton*
Parliamentary Under Secretary of State,
Department for Constitutional Affairs

8th November 2005

SCHEDULE 1

Regulation 2

## ATWRNEIAETH BARHAUS

### Rhan A: Ynghylch defnyddio'r ffurflen hon

**1. Gallwch ddewis un atwrnai neu fwy nag un.** Os ydych chi'n dewis un atwrnai, mae'n rhaid i chi ddileu popeth sydd rhwng y bachau petryal ar dudalen gyntaf y ffurflen. Os ydych chi'n dewis mwy nag un, rhaid i chi benderfynu a fyddant yn gallu gweithredu:

- Ar y cyd (hynny yw, rhaid i bob un ohonynt weithredu gyda'i gilydd ac ni allant weithredu ar wahân) neu
- Ar y cyd ac yn unigol (hynny yw, gall pob un ohonynt weithredu gyda'i gilydd ond gallant hefyd weithredu ar wahân, os ydynt yn dymuno).

Ar dudalen gyntaf y ffurflen, dangoswch yr hyn a benderfynwyd gennych trwy ddileu un o'r ddau ddewis.

**2. Os ydych chi'n rhoi pŵer cyffredinol i'ch atwrnai/atwrneiod** mewn perthynas â'ch holl eiddo a'ch holl fusnes, bydd yn golygu y gallant ddelio â'ch arian neu eiddo ac fe allent fod yn gallu gwerthu eich tŷ.

**3. Os nad ydych chi eisiau i'ch atwrnai/atwrneiod gael cymaint o bwerau,** gallwch gynnwys unrhyw gyfyngiadau ag y mynnwch. Er enghraifft, gallwch gynnwys cyfyngiad na chaiff eich atwrnai/atwrneiod weithredu ar eich rhan hyd nes bod rheswm ganddynt i gredu eich bod yn dod yn feddyliol analluog; neu gyfyngiad ynglŷn â'r hyn y caiff eich atwrnai/atwrneiod ei wneud. Rhaid ysgrifennu neu deipio unrhyw gyfyngiadau a ddewiswch yn y man priodol ar ail dudalen y ffurflen.

**4. Os ydych chi'n ymddiriedolwr** (a chofiwch fod bod yn gydberchennog cartref yn golygu eich bod yn ymddiriedolwr), dylech geisio cyngor cyfreithiol os ydych chi eisiau i'ch atwrnai/atwrneiod weithredu fel ymddiriedolwr ar eich rhan.

**5. Oni fyddwch yn cynnwys cyfyngiad yn atal hynny,** bydd eich atwrnai/atwrneiod yn gallu defnyddio unrhyw faint o'ch arian neu eiddo i wneud unrhyw ddarpariaeth y gallech chi eich hun ddisgwyl ei gwneud ar gyfer eu hanghenion hwy eu hunain neu anghenion pobl eraill. Bydd eich atwrnai/atwrneiod hefyd yn gallu defnyddio eich arian i wneud rhoddion, ond dim ond am symiau rhesymol yn unol â gwerth eich arian ac eiddo.

**6. Gall eich atwrnai/atwrneiod adfer y costau personol** o weithredu fel eich atwrnai/atwrneiod. Os yw eich atwrnai/atwrneiod yn bobl broffesiynol, er enghraifft twrneiod neu gyfrifwyr, mae'n bosib y gallant godi tâl am eu gwasanaethau proffesiynol hefyd. Mae'n bosib y carech chi wneud trefniadau penodol ar gyfer talu eich atwrnai/atwrneiod (ond os ydynt yn ymddiriedolwyr, mae'n bosib na chânt dderbyn tâl o'r fath).

**7. Os oes gan eich atwrnai/atwrneiod le i gredu** eich bod wedi dod, neu yn dod, yn feddyliol analluog i reoli eich busnes eich hun, bydd rhaid i'ch atwrnai/atwrneiod wneud cais i'r Llys Gwarchodaeth i gael cofrestru'r pŵer hwn.

**8. Cyn gwneud cais i'r Llys Gwarchod am gael cofrestru'r** pŵer hwn, rhaid i'ch atwrnai/atwrneiod roi hysbysiad ysgrifenedig, gan ddefnyddio ffurflen hysbysu benodol, a'i chyflwyno i chi a'ch perthnasau agosaf yn datgan yr hyn y maent am ei wneud, yn ôl diffiniad Deddf Atwrneiaeth Barhaus 1985. Byddwch chi neu eich perthnasau yn gallu gwrthwynebu, os ydych chi neu nhw yn anghytuno â'r cofrestriad.

**9. Mae hwn yn esboniad syml** o'r hyn y mae Deddf Atwrneiaeth Barhaus 1985 a'r Rheolau a'r Rheoliadau yn ei ddweud. Os oes angen mwy o arweiniad arnoch chi, bydd gofyn i chi neu eich ymgynghorwyr astudio'r Ddeddf ei hun a'r Rheolau a'r Rheoliadau. Gallwch gael manylion y rhain gan y Llys Gwarchod.

**10. Nodyn i atwrnai/atwrneiod**
**Ar ôl i'r pŵer gael ei gofrestru**, dylech hysbysu'r Llys Gwarchod os yw'r rhoddwr yn marw neu'n gwella.

**11. Nodyn i'r Rhoddwr**
Mae'n bosib nad yw pob un o'r nodiadau esboniadol hyn yn berthnasol i'r ffurflen rydych chi'n ei defnyddio, os yw wedi ei haddasu ar gyfer eich gofynion arbennig chi eich hun.

**Peidiwch â datgysylltu'r nodiadau hyn. Maent yn rhan o'r Atwrneiaeth Barhaus.**

**GALLWCH GANSLO'R PŴER HWN UNRHYW ADEG CYN BOD RHAID IDDO GAEL EI GOFRESTRU**

**Rhan B: I'w lenwi gan y 'rhoddwr' (y sawl sy'n penodi'r atwrnai/atwrneiod)**

**Peidiwch â llofnodi'r ffurflen hon os nad ydych chi'n deall beth mae'n ei feddwl.**

| | |
|---|---|
| Darllenwch y nodiadau ar yr ymyl sy'n dilyn ac sy'n rhan o'r ffurflen ei hun | |
| Enw a chyfeiriad llawn y rhoddwr | Rwyf i ______________________<br>o ______________________ |
| Dyddiad geni'r rhoddwr | a anwyd ar ______________________ |
| Enw a chyfeiriad yr atwrnai | yn penodi ______________________<br>o ______________________ |
| Gweler nodyn 1 ar flaen y ffurflen hon. Os mai dim ond un atwrnai rydych chi'n ei benodi, dylech ddileu popeth sydd rhwng y bachau petryal. Os ydych chi'n penodi mwy na dau atwrnai, rhowch yr enw(au) ychwanegol ar ddalen ar wahân | • [a ______________________<br>o ______________________ |
| Dilëwch yr un amherthnasol (gweler nodyn 1 ar flaen y ffurflen hon) | • ar y cyd<br>• ar y cyd ac yn unigol] |
| | i fod yn atwrnai/atwrneiod i mi at ddibenion Deddf Atwrneiaeth Barhaus 1985 |
| Dilëwch yr un amherthnasol (gweler nodyn 2 ar flaen y ffurflen hon).<br>Ychwanegwch unrhyw bwerau ychwanegol | • gydag Awdurdod Cyffredinol i weithredu ar fy rhan<br>• gydag awdurdod i wneud y canlynol ar fy rhan: |
| Os nad ydych chi eisiau i'ch atwrnai/atwrneiod gael pŵer cyffredinol, rhaid i chi nodi yma pa awdurdod rydych chi'n ei roi i'ch atwrnai/atwrneiod | |
| Dilëwch yr un amherthnasol | mewn perthynas â<br>• fy holl eiddo a'm busnes<br>• y materion eiddo canlynol: |

**Rhan B: parhad**

| | |
|---|---|
| Darllenwch y nodiadau ar yr ymyl sy'n dilyn ac sy'n rhan o'r ffurflen ei hun<br><br>Os oes cyfyngiadau neu amodau, nodwch nhw yma; os nad oes, dilëwch y geiriau hyn, os dymunwch (gweler nodyn 3 ar flaen y ffurflen hon) | • Yn amodol ar y cyfyngiadau a'r amodau isod: |
| Os yw'r ffurflen hon yn cael ei llofnodi dan eich cyfarwyddyd chi:<br>• Ni chaiff y person sy'n ei llofnodi fod yn atwrnai nac yn dyst (i Ran B neu C);<br>• Rhaid i chi ychwanegu datganiad bod y ffurflen hon wedi ei llofnodi dan eich cyfarwyddyd chi;<br>• Rhaid cael ail dyst (gweler isod). | Rwy'n bwriadu i'r pŵer hwn barhau, hyd yn oed os dof yn feddyliol analluog.<br><br>Rwyf wedi darllen, neu gael rhywun i ddarllen i mi, y nodiadau yn Rhan A sy'n rhan o'r ffurflen hon, ac sy'n ei hesbonio.<br><br>Rwy'n deall pwrpas ac effaith y ddogfen hon a natur a graddau'r pwerau yr wyf yn eu dyfarnu i'm hatwrnai/ atwrneiod. |
| Eich llofnod neu nod | Llofnodwyd gennyf i fel gweithred ________<br>a'i chyflwyno |
| Dyddiad | ar ________ |
| Rhaid i rywun fod yn dyst i'ch llofnod<br>Llofnod tyst<br><br>Ni chaiff eich atwrnai/atwrneiod fod yn dyst i chi | Yng ngŵydd ________<br>Enw llawn y tyst ________<br>Cyfeiriad y tyst ________ |
| Yr unig adeg y mae angen ail dyst yw pan nad yw'r ffurflen hon yn cael ei llofnodi gennych chi eich hun, ond dan eich cyfarwyddyd chi (er enghraifft, os oes anabledd corfforol yn eich rhwystro rhag llofnodi) | yng ngŵydd ________<br>Enw llawn y tyst ________<br>Cyfeiriad y tyst ________ |

**RHAID I'CH ATWRNAI YN AWR LENWI RHAN C**

**Rhan C: I'w lenwi gan yr atwrnai/atwrneiod**

*Noder: 1. Gellir addasu'r ffurflen hon i'w gwneud yn addas ar gyfer ei gweithredu gan gorfforaeth.*
*2. Os oes mwy nag un atwrnai, rhaid ychwanegu taflenni ychwanegol yn y ffurflen fel y dangosir isod wrth y Rhan C yma.*

| | |
|---|---|
| Darllenwch y nodiadau ar yr ymyl sy'n dilyn ac sy'n rhan o'r ffurflen ei hun<br><br>Peidiwch â llofnodi'r ffurflen hon cyn i'r rhoddwr lofnodi Rhan B neu os, yn eich barn chi, bod y rhoddwr eisoes yn feddyliol analluog adeg llofnodi Rhan B | Rwy'n deall ei bod hi'n ddyletswydd arnaf ymgeisio i'r Llys am gofrestru'r ffurflen hon dan Ddeddf Atwrneiaeth Barhaus 1985 pan fydd, neu pan ddaw, y rhoddwr yn feddyliol analluog. |
| Os yw'r ffurflen hon yn cael ei llofnodi dan eich cyfarwyddyd chi:<br>• Ni chaiff y person sy'n ei llofnodi fod yn atwrnai nac yn dyst (i Ran B neu C);<br>• Rhaid i chi ychwanegu datganiad bod y ffurflen hon wedi ei llofnodi dan eich cyfarwyddyd chi;<br>• Rhaid cael ail dyst (gweler isod). | Rwy'n deall y gallaf ddefnyddio arian y rhoddwr i wneud rhoddion, ond dim ond ar achlysuron penodol ac am symiau rhesymol yn unol â gwerth arian ac eiddo'r rhoddwr.<br><br>Rwyf hefyd yn deall ei bod hi'n dyletswydd arnaf gadw cyfrifon a chofnodion priodol a'u dangos i'r Llys pan ofynnir i mi wneud hynny.<br><br>Nid wyf dan oed. |
| Llofnod (neu nod) atwrnai | Llofnodwyd gennyf i fel gweithred ______________________<br>a'i chyflwyno |
| Dyddiad | ar ______________________ |
| Llofnod tyst | yng ngŵydd ______________________ |
| Rhaid i'r atwrnai lofnodi'r ffurflen, a rhaid cael l tyst i'r llofnod hwnnw. Ni chaiff y rhoddwr fod yn dyst ac ni chaiff un atwrnai fod yn dyst i lofnod atwrnai arall. | Enw llawn y tyst ______________________<br>Cyfeiriad y tyst ______________________<br>______________________ |
| Yr unig adeg y mae angen ail dyst yw pan nad yw'r ffurflen hon yn cael ei llofnodi gennych chi eich hun, ond dan eich cyfarwyddyd chi (er enghraifft, os oes anabledd corfforol yn eich rhwystro rhag llofnodi).<br>Llofnod ail dyst | yng ngŵydd ______________________<br><br>Enw llawn y tyst ______________________<br>Cyfeiriad y tyst ______________________<br>______________________<br>______________________ |

## EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These regulations revoke the Enduring Powers of Attorney (Welsh Language Prescribed Form) Regulations 2000 (S.I.2000/289) and provide a new Welsh language version of the prescribed form for an Enduring Power of Attorney. The prescribed form (either the English or Welsh language version) must be used in order to make an Enduring Power of Attorney. However regulation 3 permits the continued use, before 1st April 2007, of the form which is replaced by the new prescribed form.